**CAW54 Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Sefydliad: Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Ar y cyfan, mae'r newidiadau a'r egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith newydd yn cael eu croesawu a'u cymeradwyo. Am y rhesymau canlynol:

1. Mae angen sicrhau bod gan blant Cymru system a chwricwlwm pwrpasol fydd yn eu paratoi i lewyrchu mewn cymdeithas sydd yn newid yn gyflym. Mae'r byd wedi newid gymaint ers sefydlu'r cwricwlwm maent yn ei ddilyn ar hyn o bryd.

2. Mae'r ffaith bydd gan bob sefydliad addysgol ar draws y wlad pedair nod gyffredinol gyffredin o fewn CiG yn gryfder (er bod defnydd y gair 'galluog' yn y Gymraeg am 'capable' o fewn un ohonynt yn ddadleuol).

3. Pwyslais ar yr elfen 'leol' o'r cwricwlwm yn gryfder yn ogystal â phwysigrwydd Cymreictod a diwylliant Cymreig.

3. Cynnwys Iechyd a Lles fel Maes Dysgu a Phrofiad gyda'r un pwyslais a gweddill y meysydd  dysgu yn sicrhau statws i'r elfennau hanfodol hynny sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau'r hyn sy'n bwysig.

4. Asesu yn rhan annatod o'r dysgu ac addysgu yn hytrach na digwyddiad ar ddiwedd y broses. Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i ystyried asesu law yn llaw a chynnydd. Mae hyn yn newid i'r system gyfredol lle mae asesu yn cael ei ddefnyddio yn fwyaf i fesur cynnydd.

5. Ffocws ar gynnydd disgyblion yn hytrach na chyflawniad yn unig. Mae'r camau cynnydd yn gontinwwm bydd yn caniatâu i ddisgyblion ddatblygu ar raddfa sydd yn bwrpasol i'w gallu yn hytrach na'i hoedran ac mae hyn i'w groesawu gan na fydd terfynau 'cuddiedig' yn cael ei roi ar gynnydd. Fodd bynnag, mae yna ofyn mawr ar y gweithlu i sicrhau dealltwriaeth drwyadl a chytûn ar yr hyn a olygir a ddyfynnir fel cynnydd disgwyliedig o fewn pob un o'r disgrifiadau a geir o fewn pob un o'r camau cynnydd. Mae llwyddiant y system i sicrhau cysondeb, tegwch a chydraddoldeb i'n disgyblion yn hynny o beth, yn ddibynnol ar ddysgu proffesiynol safonol, amser ac adnoddau.

6. Caniatâu rhyddid i ysgolion bennu cwricwlwm sy'n ateb gofynion eu disgyblion hwy gan ystyried cyd-destun a hynny o fewn fframwaith fydd yn sicrhau lefel o gysondeb cenedlaethol. Fodd bynnag, mae llwyddiant hyn wrth gwrs yn rhannol ddibynnol ar ddysgu proffesiynol safonol, amser ac adnoddau fydd ar gael i ysgolion wrth iddynt ddechrau'r daith o ddylunio eu cwricwlwm.

7. Mae'r rhyddid a gynnigir o safbwynt cynnwys yn  sicrhau bod ein disgyblion yn cael y cyfleoedd i ddysgu am hanes sydd yn berthnasol iddynt ac yn cyfrannu at eu hunaniaeth. Yn bendant, mi fydd hanes Cymru yn ogystal â hanes ehangach cyfraniad pobl ethnig a duon i Gymru yn cael y sylw teilwng.

8. Ffocws ar ddatblygu dealltwriaeth a defnydd o ddulliau addysgu amrywiol yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi ar ddatblygu'r plentyn cyflawn drwy ddarparu cyfleoedd dysgu i feithrin sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau. Mae'r 12 egwyddor addysgeg sy'n cael eu nodi yn y canllawiau yn rhoi arweiniad da.

9. Y Gymraeg yn statudol, mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag mae yna botensial dinistriol iawn i'r Gymraeg o fewn y datganiadau esboniadol yn y bil sy'n cyfeirio at 'ddatgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol' - gweler 3.1.

**1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Oes, angen i newidiadau cael ei wreiddio mewn statud er mwyn sicrhau'r elfen o gysondeb a'r cynnig cyffredin o ansawdd i bob disgybl yng Nghymru.

## 2. Gweithredu'r Bil

### 2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Ar y cyfan credwn bod ysgolion yn croesawu ac yn gyffrous i weithredu'r egwyddorion ag amlinellir yn y bil. Ond, maent hefyd yn awyddus i baratoi yn drwyadl ar gyfer gwneud hynny yn gywir. Mae'r newidiadau yn sylweddol ac yn mynd i ofyn ar ddysgu proffesiynol dwys i rai o'r gweithlu. Mae amser teilwng ac adnoddau digonol yn hanfodol bwysig i sicrhau llwyddiant nod uchelgeisiol y Llywodraeth.

### 2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Yn ddibynnol ar heriau blwyddyn addysgol 20-21 dylid ystyried adolygu'r amserlen gweithredu.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

### 3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Gallai'r hyn sydd yn cael ei nodi parthed y rhyddid fydd gan benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion i 'ddatgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol' gael effaith gwbl ddinistriol ar yr iaith Gymraeg. Mae'r bil yn aneglur ac mae'n tynnu'n groes i bolisïau a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn bodoli eisoes. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu taw eithriad byddai datgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol lle mewn gwirionedd mae rhai awdurdodau cyfan yn gweithredu polisïau iaith lle nad ydy'r Saesneg yn cael ei ddysgu i ddisgyblion dan 7 oed mewn nifer helaeth o ysgolion. Dyma'r norm i rai siroedd nid yr eithriad a dylai'r bil adlewyrchu hyn. Mae datganiadau o'r fath yn rhoi'r iaith

mewn lle bregus tu hwnt yn ogystal â rhoi ysgolion, penaethiaid a Llywodraethwyr mewn sefyllfa anodd. Gallai'r geiriad amwys hwn arwain at gyfaddawdu ar systemau trochi sydd wedi bod mor effeithiol yn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg ar hyd y degawdau. Mae'n hanfodol bod y rhan hwn o'r bil yn cael ei adolygu, yn enwedig os ydy'r Llywodraeth o ddifri am y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## 4. Goblygiadau ariannol

### 4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae angen sicrhau ariannu digonol ar gyfer gweithredu'r newidiadau ac hynny ar lefel ysgol/ leol. Y prif gost fydd amser athrawon, ac er bod y grant Dysgu Porffesiynol yn gyfraniad da ar gyfer y broses gynllunio mae angen gwarant y bydd yr arian hwnnw ar gael am y 5 mlynedd nesaf i ysgolion tra bod y cynllunio'n parhau, ac i bontio'r cyfnod gweithredu a thu hwnt.

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

### 5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

Mae angen is-ddeddfwriaeth sy'n gosod trochi'r Gymraeg ar sail cyfreithiol cadarn, a'i fod yn benderfyniad i Awdurdodau Lleol ac wedi'i alinio gyda thargedau CySGA yr Awdurdodau hynny.

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

Mae’r MDaPh ‘Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu’ yn cael ei ddefnyddio nawr fel y diffiniad o’r continiwm ieithyddol – nid dyna oedd y bwriad gwreiddiol ac mae angen fframwaith glir, cyson a chenedlaethol ar ddisgwyliadau camau ieithyddol sy’n arwain at ddwyieithrwydd.

Mae angen alinio canllawiau categoreiddio ieithyddol ysgolion yn unol â’r dyhead cenedlaethol i gynhyrchu siaradwyr hyderus dwyieithog, a miliwn ohonynt, erbyn 2050.